Prentis y Swynwr

Paul Dukas

Y FFEITHIAU

Y recordiad a ddefnyddiwyd ar gyfer trac sain *Fantasia* oedd y defnydd cyntaf o sain stereoffonig mewn ffilm.

Enw'r swynwr yn y ffilm *Fantasia* yw *Yen Sid*, sef 'Disney' tuag yn ôl.

Mae'r gair *scherzo*, a ddefnyddir yn is-deitl *Prentis y Swynwr*, yn golygu 'jôc' yn Eidaleg.

Ysgrifennodd Dukas fersiwn arall o'r darn ar gyfer dau biano.

Mae *Prentis y Swynwr* yn gerdd symffonig gan Paul Dukas.

Cafodd *Prentis y Swynwr* ei thanio i enwogrwydd yn 1940 pan ddefnyddiodd Walt Disney y gerddoriaeth ar gyfer y ffilm *Fantasia*.

Gwnaeth Dukas seilio *Prentis y Swynwr* ar gerdd o'r enw *Der Zauberlehrling*, a ysgrifennwyd gan Johann Wolfgang von Goethe yn 1797.

Mae'r darn yn para tua deg munud.

Cafodd ei hysgrifennu yn 1897 a'i pherfformio am y tro cyntaf ym Mharis ar 18 Mai o'r un flwyddyn.

Is-deitl y gwaith yw '*Scherzo ar sail baled gan Goethe*'.

CREU'R DARN

Mae *Prentis y Swynwr* yn enghraifft o gerddoriaeth rhaglen ac yn dilyn y digwyddiadau yng ngherdd Goethe yn agos.

Mae'r darn yn seiliedig ar stori prentis consuriwr sy'n rhoi cynnig ar yr hud y mae wedi ei ddysgu gyda rhai canlyniadau trychinebus.

Mae'r gwaith yn cynnwys basŵn dwbl a rhan heriol iawn ar gyfer y glockenspiel.

Roedd *Prentis y Swynwr* yn llwyddiant yn syth pan gafodd ei pherfformio gyntaf ym Mharis.

Ysgrifennodd Dukas y darn ar ffurf rondo, lle mae thema wreiddiol y gerddoriaeth yn dychwelyd sawl gwaith i gyfleu'r ysgub gythreulig yn dod yn ôl dro ar ôl tro.